

YN ACHOS RHEOLIADAU (YMDDYGIAD) YR HEDDLU 2020

YN ACHOS CYN-RINGYLL YR HEDDLU 6016 ANDREW SMURTHWAITE

Gwrandawriad Camymddwyn Carlam ar 13 Hydref 2026

gan Y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan

Penderfyniad ar Ganlyniad

Ymddiswyddodd cyn-Ringyll yr Heddlu 6016 Andrew Smurthwaite o'i rôl fel swyddog yr heddlu ychydig cyn y gwrandawriad hwn. Felly, nid yw'n gwasanaethu fel swyddog mwyach. Felly, mae a wnelo'r Gwrandawriad Camymddwyn Carlam hwn, a gynhelir o dan Ran 5 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, â chyn-swyddog a chyfarwyddaf fod y Rheoliadau yn cael eu diwygio i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer cyn-swyddog.

Nid yw cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite wedi ymuno â'r gwrandawriad heddiw ond mae'r Ditectif Ringyll Michael George, sef ei Gynrychiolydd o Ffederasiwn yr Heddlu, yn ei gynrychioli.

YR HONIADAU

Ar yr adeg berthnasol, roedd y cyn-Ringyll Smurthwaite yn swyddog yr heddlu gyda Heddlu De Cymru, ond roedd oddi ar ddyletswydd pan ddigwyddodd y digwyddiadau sy'n destun yr achosion hyn.

Mae'r honiadau yn erbyn y cyn-Ringyll Smurthwaite wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Rheoliad 51 a gyflwynwyd iddo. Rwyf wedi crynhoi'r honiadau fel a ganlyn:

Ar 17 Awst 2024, wrth fod oddi ar ddyletswydd, achosodd y cyn-Ringyll Smurthwaite ddifrod i ddrws preswyl. Yn sgîl hyn, riportiwyd y digwyddiad i Heddlu Dyfed-Powys i ymchwilio iddo.

Y diwrnod canlynol, cynhaliodd swyddogion Heddlu Dyfed-Powys chwiliad o'r safle a darganfod 12 rownd o fwledi.

Arestwyd y cyn-Ringyll Smurthwaite wedyn mewn perthynas â honiadau o achosi difrod troseddol a meddu ar fwledi heb dystysgrif. Wrth fod yn nalfa'r heddlu, cynhaliodd swyddogion chwiliad o aelwyd y cyn-Ringyll Smurthwaite ac adfeddiannu un rownd ychwanegol o fwledi a chasin bwled.

Yn y cyfweiliad â'r heddlu wedi ei arestio, cadarnhaodd y cyn-Ringyll Smurthwaite ei fod wedi gorfodi mynd i mewn i'r preswyl er mwyn hôl ei ffôn symudol. Mewn perthynas â'r bwledi, dywedodd y cyn-Ringyll Smurthwaite fod y rhain wedi'u cronni'n anfwriadol yn ei daclau heddlu dros nifer o flynyddoedd wrth weithio fel swyddog arfau tanio. Derbyniodd y cyn-Ringyll Smurthwaite fod y bwledi yn rowndiau byw ac nad oedd ganddo awdurdod cyfreithlon i gadw bwledi yn ei feddiant.

Ar 26 Ionawr 2026, aeth y cyn-Ringyll Smurthwaite gerbron Llys y Goron Caerdydd, lle plediodd yn euog i'r drosedd o feddu ar fwledi ar gyfer arf tanio heb ddal dystysgrif ddilys, yn groes i Adran 1(1)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Arfau Tanio 1968. Ymddangosodd yn yr un llys eto i'w ddedfrydu ar 27 Mawrth 2026. Y ddedfryd a osodwyd gan y Llys oedd rhyddhad amodol o 18 mis a gorchmynnwyd iddo dalu costau o £750 a gordal dioddefwr o £26. Gwnaeth Barnwr y Treial drosglwyddo'r drosedd o ddifrod troseddol am wrandawriad yn Llys yr Ynadon.

Yn hyn o beth, aeth y cyn-Ringyll Smurthwaite gerbron Llys Ynadon Casnewydd ar 9 Medi 2026 ac ar ôl gwrandawriad dadleuol, cafwyd y cyn-Ringyll Smurthwaite yn euog o'r drosedd o achosi difrod i ddrws allanol preswyl, gwerth llai na £5,000, yn groes i adran 1(1) a (4) o Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Y ddedfryd a osodwyd gan y Llys oedd talu iawndal gwerth £650 i'r achwynydd. Hefyd, gorchmynnwyd y cyn-Ringyll Smurthwaite i dalu costau erlyn o £650. Ni roddwyd dedfryd ychwanegol.

Felly, cafwyd y cyn-Ringyll Smurthwaite yn euog o ddwy drosedd ar wahân ac yn hyn o beth, ac er mwyn cyflawnrwydd, cyfeiriaf at y Dystysgrif Euogfarnu sydd wedi'i chynnwys ar dudalennau 35 i 39 ym mwndel y gwrandawriad.

Mae'r Awdurdod Priodol yn honni bod euogfarnau troseddol y cyn-Ringyll Smurthwaite yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â'r canlynol:

Safon 9: Ymddygiad Annheilwng, sef bod: *“Mae Swyddogion yr Heddlu yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n difrio Gwasanaeth yr Heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ynddo, p'un a fyddant ar ddyletswydd ai peidio. Mae Swyddogion yr Heddlu yn rhoi gwybod am unrhyw gamau a gymerir yn eu herbyn am drosedd, unrhyw amodau a osodir arnynt gan lys neu unrhyw hysbysiad cosb a gyflwynir iddynt.*

Mae'r Awdurdod Priodol yn honni bod euogfarnau'r cyn-Ringyll Smurthwaite yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, hynny yw, bod torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol, ei fod yn cyfiawnhau diswyddo.

Gan fod cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite wedi ymddiswyddo ac mae bellach yn gyn-Swyddog, mae hyn wedi'i ddiwygio i'r perwyl bod torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol y byddai'r cyn-Swyddog wedi cael ei ddiswyddo pe na bai wedi peidio â bod yn aelod o heddlu.

Mae'r cyn-Ringyll Smurthwaite wedi darparu ymateb ysgrifenedig i'r honiadau fel sy'n ofynnol gan Reoliad 54 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020. Mae'r cyn-Ringyll Smurthwaite yn derbyn bod ei ymddygiad yn torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas ag Ymddygiad Annheilwng. Mae'n derbyn yn llawn bod ei euogfarn am feddu ar fwled i ar gyfer arf tanio heb feddu ar dystysgrif ddilys a'i euogfarn am ddifrod troseddol yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Canfyddiadau

Rwyf wedi ystyried yn llawn y dystiolaeth ger fy mron a'r cyfaddefiadau gan y cyn-Ringyll Smurthwaite. Yn ôl pwysau tebygolrwydd, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod yr honiadau yn gywir. Rwyf hefyd yn fodlon bod yr ymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Canlyniad

Ar ôl canfod camymddwyn difrifol, mae'n rhaid i mi gymryd camau disgyblu yn erbyn y cyn swyddog, a gallaf wneud hynny'n ddiymdroi. Yr unig gam disgyblu sydd ar gael i mi yw y byddai cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite wedi cael ei ddiswyddo pe na bai wedi peidio â bod yn aelod o heddlu.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf hefyd wedi rhoi ystyriaeth lawn i Ganllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau mewn Achosion Camymddygiad yr Heddlu a fu'n sail i'm casgliad. Rwyf wedi profi difrifoldeb yr honiadau a diben gosod cosb, y mae'n rhaid i mi eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar ganlyniad. Rwyf wedi rhoi sylw dyladwy i feusrwydd, niwed, unrhyw ffactorau gwaethgol ac unrhyw ffactorau lliniarol fel y'u nodir yn y Canllawiau.

Wrth asesu difrifoldeb yr ymddygiad, rwy'n cydnabod po fwyaf beius yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf difrifol yw'r camymddwyn a'r mwyaf difrifol fydd y canlyniad tebygol. Rwy'n ymwybodol bod gan y cyn-Ringyll Smurthwaite ddwy euogfarn droseddol ac rwyf yn ystyried bod meddu ar fwled i ar gyfer arf tanio heb ddal tystysgrif ddilys yn arbennig o ddifrifol. Yn hyn o beth, rwyf yn ymwybodol hefyd bod y cyn-Ringyll Smurthwaite o'r un farn, fel y cydnabuodd yn ei ymateb ysgrifenedig: *"I fully agree that this alone should be sufficient to dismiss me from South Wales Police with immediate effect"*.

Rwyf yn ymwybodol o'r ffaith bod y cyn-Ringyll Smurthwaite yn dal swydd gyfrifol, yr oedd pobl yn ymddiried ynddo a bod ei gamymddygiad yn achos difrifol o gamfanteisio ar yr ymddiriedaeth honno. Mae'n annerbyniol i swyddogion yr heddlu, sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith, dorri'r gyfraith eu hunain. Mae'r holl ffactorau yn cynyddu euogrwydd yn sylweddol. Nid oes amheuaeth bod ymddygiad cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite wedi cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae'r niwed a achoswyd gan weithredoedd y cyn-swyddog yn niweidio enw da yr heddlu ac yn effeithio ar wasanaeth yr heddlu a hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth yn gyffredinol. Un o'r ffactorau pwysicaf yw effaith yr achos o gamymddwyn ar statws ac enw da y proffesiwn

cyfan. Rwyf wedi fy modloni bod cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite wedi niweidio'r enw da hwnnw.

Mae ffactorau gwaethgol yn ffactorau sy'n tueddu i waethygu amgylchiadau'r achos, mewn perthynas â beusrwydd y cyn-swyddog neu'r niwed a achoswyd. Rwyf wedi dyfarnu bod nifer o ffactorau gwaethgol sylweddol yn gysylltiedig â'r achos hwn. Roedd yr ymddygiad yn rhagfriadol ac yn fwiadol. Mae'r ymddygiad yn gwyrhoeddi sylweddol oddi wrth gyfraith gwlad gyffredinol, cyfarwyddiadau sy'n cynnwys gorchmynion, polisïau'r heddlu a chanllawiau cenedlaethol. Mae ymddygiad cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite yn warthus ac yn gwbl annerbyniol. Parhaodd ei ymddygiad ar ôl iddo sylweddoli, neu y dylai fod wedi sylweddoli, ei fod yn amhriodol.

O ran unrhyw ffactorau lliniarol sy'n gostwng lefel euogrwydd a niwed, rwyf yn derbyn bod sawl ffactor lliniarol yn yr achos hwn. Ceir tystiolaeth o ddealltwriaeth ac edifeirwch gwirioneddol gan y cyn-Ringyll Smurthwaite. Yn ogystal, mae ef wedi ymddiheuro am ei weithredoedd ac wedi dangos edifeirwch. Rwyf yn rhoi clod iddo yn hyn o beth.

Rwyf wedi atgoffa fy hun o dri diben canlyniadau achosion camymddygiad yr heddlu, sef cynnal hyder y cyhoedd mewn plismona ac enw da gwasanaeth yr heddlu; cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn; a diogelu'r cyhoedd.

Rwyf wedi ystyried y ffactorau lliniarol personol a gyflwynwyd ar ran cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite ac rwyf wedi rhoi cryn sylw i'r tystlythyr cymeriad y mae wedi'i ddarparu o'i blaid. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod, oherwydd natur a diben achosion disgyblu, y bydd pwys ffactorau lliniarol personol o reidrwydd yn gyfyngedig, yn enwedig pan fydd camymddwyn difrifol wedi'i brofi, fel sydd wedi digwydd yn yr achos hwn.

O dan yr holl amgylchiadau, dim ond un canlyniad posibl y gallaf ei osod, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth wrth wneud hynny. Felly, fy mhenderfyniad ar y canlyniad yw fy mod wedi fy modloni bod y camymddwyn mor ddifrifol fel y byddai cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite wedi cael ei ddiswyddo ar unwaith pe na byddai wedi ymddiswyddo. Ni ellir cyfiawnhau unrhyw ganlyniad arall ac nid oes unrhyw ganlyniad arall yn briodol.

Ni chaiff y math hwn o ymddygiad ei dderbyn gan Heddlu De Cymru. Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn gymwys o'r eiliad y byddwch yn cerdded drwy'r drws. Ni chaniateir y math hwn o ymddygiad, boed ar ddyletswydd ai peidio. Dylai'r cyhoedd allu ymddiried yn llwyr yn swyddogion yr heddlu. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'n swyddogion arddel y safonau proffesiynol uchaf a methodd cyn-Ringyll yr Heddlu Smurthwaite â gwneud hynny.

Mae'r mwyafrif llethol o swyddogion yr Heddlu, staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn ymddwyn yn berffaith ac yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r nifer prin iawn ohonynt sy'n dewis mynd yn groes i'r safonau a ddisgwylir ohonynt yn tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd ym maes plismona.

Yn unol â Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, caiff Canfyddiadau a Chanlyniad y gwrandawriad hwn eu hatgyfeirio at y Coleg Plismona er mwyn i gyn-Ringyll yr Heddlu 6016 Andrew Smurthwaite gael ei roi ar Restr o Swyddogion a Staff Gwaharddedig yr Heddlu.